**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 16.10.19**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Caerwyn Roberts .

**PRESENNOL**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Robert G. Owen, Dylan Hughes, Mair Thomas, David J. Roberts, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda'r Cyng. Gerallt Jones a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer a diolchodd y Cyng. Gerallt Jones am y cerdyn oedd wedi ei dderbyn gan y Cyngor ag yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Medi 11eg 2019 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Cynllun Cyllideb**
Adroddwyd bod £12,209.68 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £2,974.27 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y gost o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus heb gael ei wario (£1,029 wedi ei glustnodi hyd yma), nid oedd gwariant wedi cael ei wneud gyda'r archwiliad mewnol ag allanol (£600 wedi ei glustnodi), nid oedd gwariant wedi bod gyda cynnal a chadw (£600 wedi ei glustnodi hyd yma).

**Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg**
Adroddodd y Clerc bod copi o rybudd gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd (gorchymyn cydgrynhol 2007) wedi cael ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn datgan bod y cynllun uchod wedi ei gynnwys yn y rhybudd a bod gan wrthwynebwyr i'r cynllun hwn tan y 15ed o Dachwedd i anfon gwrthwynebiad ysgrifennedig i mewn gyda'i rhesymau penodol pam eu bod yn gwrthwynebu i'r llinellau hyn gael eu gosod.

**Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r uchod ar y 19eg o fis diwethaf ar ran y Cyngor ac adroddodd fel a ganlyn – bod 6 aelod o'r Bwrdd yn bresennol ynghyd a 3 aelod o'r Cynghorau Cymuned. Bod araith wedi cael ei rhoi gan Jo Jones ynglyn a sesiynau cynhwysiad a amrywiaeth yn y ganolfan. Mae dau gynnig am grantiau wedi cael eu cyflwyno, un i'r Treth Gwaredu Tirlenwi i ardaloedd tu allan a ymrwymiad cymunedol ar llall i gronfa Cist Cymunedol am offer i'r wal ddringo. Byddant yn cael gwybod yn mis Hydref os ydynt wedi bod yn llwyddianus. Mae y ddyled o £39,000 am drydan wedi cael ei gymeryd drosodd gan Gyngor Gwynedd a bydd y Bwrdd yn talu'n nol i Gyngor Gwynedd bob mis. Mae incwm y pwll i lawr ag hefyd incwm y caffi i lawr ychydig. Bydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal ar yr 16eg o Ionawr 2020.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £8,747.74 yn y cyfrif rhedegol, a £5,512.78 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllid a Thollad | - | £95.00 | - treth cyflog y Clerc |
| Mr. Arwel Thomas | - | £270.00 | - torri gwair y fynwent |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mr. M. Downey | - | £40.00 | - rhent cwt yr hers (Hydref) |

414.......[signature].......Cadeirydd

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £4,011.95 – hanner y cynnig precept
Eisteddfod Ardudwy - £75.00

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi derbyn llythyr gan yr Archwilwyr Allanol, cwmni BDO, yn datgan bod yr archwiliad blynyddol wedi cael ei gwblhau ganddynt a bod ddim materion wedi dod i'w sylw ynglyn ar archwiliad. Mae angen yn nawr i gymeradwyo a derbyn y Ffurflen Flynyddol gan y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol gan yr Aelodau i gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol hon.

**GOHEBIAETH**
**Cyngor Gwynedd – Adran Gyfreithiol**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn copi o rybudd canlynol gan yr adran uchod - Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau'r Ffordd Ddi-Ddosbarth a Adwaenir fel Pant yr Onnen, Llanfair) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2019 a bod hyn oherwydd bod angen gosod sustem taenellwr/cyflenwad dan domestic i eiddo cyfagos a bydd mynediad i breswylwyr yn unig pan fydd y gwaith hwn yn cael ei gario allan. Disgwylir i'r gwaith gael ei gychwyn ar y 4ydd o Dachwedd a ddim parhau am fwy na 5 diwrnod.

**UNRHYW FATER ARALL**
Eisiau anfon at yr Adran Priffyrdd i ofyn iddynt adnewydd un o'r arwyddion 40 m.y.a ar rhiw Cae Cethin oherwydd nid yw posib ei weld.
Eisiau anfon at yr Adran Priffyrdd i ofyn iddynt adewydd y llinellau gwyn yn y maes parcio ag hefyd y llecyn anabl ar llinellau gwyn ar mynediad y maes parcio oherwydd eu bod i gyd wedi gwisgo.
Eisiau anfon at yr Adran Priffyrdd i ofyn iddynt dorri y drain sydd wedi gor-dyfu drosodd i'r cae ger ystad Derlwyn.
Cafwyd adroddiad o bwyllgor y neuadd gan y Cyng. Robert G. Owen a Mair Thomas ac adroddwyd fel a ganlyn – cyfeirwyd at y ffaith bod ein Clerc/Cynghorydd Gwynedd, y Cyng. Annwen Hughes pan yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd, wedi cyflwyno siec o £500 i bwyllgor y neuadd o'i chronfa Cadeirydd Cyngor Gwynedd a bod y pwyllgor yn ddiolchgar iawn am y rhodd hwn, bod y pwyllgor wedi cytuno i gais gan yr Eglwys i gael defnyddio'r neuadd ar un Sul yn fuan i gael cinio ar ol gwasanaeth yn Eglwys Llandanwg, bod trefniadau Sul y Cofio wedi cael eu gwneud. Bydd cyfarfod nesa o'r pwyllgor hwn yn cael ei gynnal ar y 27ain o Dachwedd.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Tachwedd 20ed 2019 am 7.00 o'r gloch**

**ARWYDDWYD**..............................................Cadeirydd

**DYDDIAD**......................20.11.19.............